Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

# Pentrefelin – Diweddariad terfynol

Mae fferm Pentrefelin yn gweithredu micro-fferm laeth gan ddefnyddio brid o wartheg treftadaeth pwrpas deuol, sef gwartheg 'Red Poll', ac mae'r lloi'n aros gyda'r fuwch am 12-14 awr y dydd. Mae'r llaeth yn cael ei werthu'n uniongyrchol i'r cwsmer a gwerthwyr coffi moethus, sy'n farchnad sy'n gwerthfawrogi eu dull adfywiol o reoli'r tir.

**Nodau'r prosiect**

1. Cymharu nodweddion iechyd y pridd rhwng y caeau sy'n cael eu rheoli'n adfywiol am wahanol gyfnodau o amser
2. Dangos a chymharu gwahanol ddangosyddion iechyd y pridd
3. Helpu i ddisgrifio sut y gall ffermwyr fesur a monitro iechyd y pridd

**Yr hyn a wnaed**


Cafodd pum cae (Ffigur 1) eu monitro yn ystod y prosiect. Roedd rhai o'r rhain wedi cael eu rheoli'n flaenorol ar gyfer tyfu cnwd india-corn a'i werthu i ffermwyr llaeth eraill:

- Cae 1 - wedi'i reoli'n adfywiol am flwyddyn gan gynnwys system amaeth goedwigaeth. Mae tair rhes o goed ffrwythau wedi cael eu plannu a'i ffensio sy'n creu isadeiledd i hwyluso pori cylchdro.
- Cae 2 – wedi'i reoli'n adfywiol am 3 blynedd a'i bori ar sail gylchdro
- Cae 3 – wedi'i reoli'n adfywiol am 6 blynedd a'i bori ar sail gylchdro
- Cae 4 – Nid yw Huw yn cofio'r cae yma'n cael ei aredig ac mae wedi cael ei reoli'n adfywiol am 4 blynedd ar sail gylchdro
- Cae 5 – cae o faglys rhuddlas wedi'i reoli'n adfywiol am 2 flynedd ar sail gylchdro

Mae'n bwysig deall bod bioamrywiaeth yn golygu mwy na'r hyn a welwn uwchben y ddaear yn unig. Mae cyfoeth o fioamrywiaeth yn byw yn y pridd, a bydd priddoedd bioamrywiol yn fwy gwydn a gweithredol. Bydd pridd iach wedyn yn gallu cefnogi ecosystemau iach uwchben y ddaear sy'n cefnogi bioamrywiaeth a systemau ffermio cynhyrchiol.



**Ffigur 1: Map o fferm Pentrefelin gyda chaeau'r prosiect wedi'u labelu**




Cynhaliwyd y profion canlynol:

1. Gwerthusiad Gweledol o Strwythur y Pridd (VESS)
2. Deunydd organig y pridd a charbon yn y pridd
3. Prawf iechyd y pridd sbectrwm eang Lancrop

## Gwerthusiad gweledol o strwythur y pridd (VESS)

Mae'r gwerthusiad gweledol o strwythur y pridd yn cael ei sgorio o 1-5, gydag 1 yn dda gyda phriddoedd briwsionllyd a 5 yn wael gyda phriddoedd called a chywasgedig (Tabl 1).

Bu'r prosiect hefyd yn edrych ar rai o'r dangosyddion syml y gellir edrych arnynt yn y cae, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn nhabl 1 isod.  Mae gwreiddbilenni (rhizosheaths) yn ronynnau pridd sy'n glynu at wreiddiau planhigion o ganlyniad i weithgarwch biolegol. Mae glud yn cael ei ryddhau gan ficro organebau sy'n glynu'r gronynnau i'r gwreiddiau. Mae hyn yn dangos gweithgarwch biolegol da a ffurfiad strwythur pridd da. Caiff ei sgorio o 0-2 gyda 0 yn dangos dim gorchudd o gwbl, 1 yn dangos gorchudd rhannol a 2 yn dangos bod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio'n gyfan gwbl gan ronynnau'r pridd.

Fe wnaethom ni hefyd fesur dyfnder gwreiddio'r planhigion sy'n dangos a oes unrhyw beth yn cyfyngu ar eu twf drwy'r pridd. Mae amodau a allai gyfyngu ar dwf gwreiddiau'n cynnwys cywasgiad, prinder maetholion, lefelau ocsigen isel neu bridd dwrlawn.

**Tabl 1: Dangosyddion pridd a gafodd eu hasesu**

| | Field 1 | | | Field 2 | | | Field 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pit 1 | Pit 2 | Pit 3 | Pit 1 | Pit 2 | Pit 3 | Pit 1 | Pit 2 | Pit 3 |
| Rhizosheaths | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| Rooting depth (cm) | 8 | 8 | 4 | 9 | 4 | 10 | 7 | 5 | 5 |
| VESS | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 |

## PRYFED GENWAIR

Cyfeirir yn aml at bryfed genwair fel peirianwyr ecosystem. Maent yn prosesu deunydd organig ac yn creu tyllau sy'n cyfrannu at symudiad dŵr ac aer sy'n helpu i ddatblygu strwythur y pridd.  Trwy gyfrif a dosbarthu'r pryfed genwair, yn ôl y parth lle maent yn byw ym mhroffil y pridd, mae hyn yn helpu i adeiladu darlun o sut mae'r pridd yn gweithredu. Ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom ni gloddio tyllau 20 x 20 x 20cm ar fferm Pentrefelin a chyfrif y pryfed genwair gan nodi'r cyfanswm (pryfed genwair ifanc a llawn dwf) yn ogystal â nifer y pryfed genwair llawn dwf sydd felly'n gallu atgynhyrchu. Fe wnaethom ni gategoreiddio'r pryfed genwair yn ôl tair gwahanol haen ym mhroffil y pridd; Epigeig (neu'r rhai sy'n byw ar wyneb y pridd), Endogeig (neu'r rhai sy'n byw yn haen uchaf y pridd) ac Aneceig (neu'r rhai sy'n cloddio'n ddwfn).

Mae'r canlyniadau yn Nhabl 2 yn cynrychioli cyfartaledd o dri thwll fesul cae. Mae'r niferoedd yn is na'r disgwyl a allai fod o ganlyniad i ffactorau gan gynnwys

- Cyflwr y tir yn dal i fod yn gymharol wlyb ac oer yn dilyn gaeaf gwlyb
- Mae'r priddoedd ar fferm Pentrefelin yn dywodlyd iawn ac felly gallant fod yn brin o ddeunydd organig
- Nifer fach o bryfed genwair llawn dwf yn awgrymu nad yw'r broses atgynhyrchu wedi dechrau eto

**Tabl 2: Nifer y pryfed genwair ym mhob cae**

| | Cae 1 | Cae 2 | Cae 3 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y pryfed genwair | 10 | 10 | 10 |
| Oedolion | 1 | 0 | 0 |
| Oedolion yn yr uwchbridd | 1 | 2 | 1 |


| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedolion sy'n tyllu'n ddwfn | 0 | 0 | 1 |

| | Field 1 | Field 2 | Field 3 |
|---|---|---|---|
| Total earthworms | 10 | 10 | 10 |
| Litter dwelling adults | 1 | 0 | 0 |
| Topsoil adults | 1 | 2 | 1 |
| Deep-burrowing adults | 0 | 0 | 1 |

## DEUNYDD ORGANIG Y PRIDD

I atgyfnerthu'r darlun o sut mae'r priddoedd yn perfformio ar fferm Pentrefelin, fe wnaethom ni gynnal arsylwadau ychwanegol. Fe wnaethom ni gynnal gwaith samplu pridd manwl mewn tri o'r caeau i ddarparu bras amcan o ddeunydd organig y pridd a stoc garbon hyd at ddyfnder o 50cm dan ddaear. Cafodd y samplau eu casglu yn y cae o fewn metr o wrychyn yn ffinio'r caeau i gymharu'r stoc garbon yn yr ardaloedd hyn.

**Ffigur 1: Cynnwys organig y pridd ar gyfartaledd (%) o bob dyfnder samplu ym mhob math o gae**




## STOC GARBON Y PRIDD

Cafodd y canlyniadau Deunydd Organig eu trosi i Garbon Organig y Pridd (sef prif gyfansoddyn Deunydd Organig y Pridd). Yna, defnyddiwyd y ffigyrau hyn, ynghyd â data

dwysedd swmp (pwysau'r pridd sych o fewn cyfaint hysbys), i amcangyfrif stoc garbon y priddoedd a samplwyd, wedi'i gyfleu ar ffurf tunnell fesul hectar.

**Tabl 3: Stoc Garbon y Pridd ar gyfartaledd (t/ha)**

| Dyfnder y pridd (cm) | Rhif y cae / gwrych | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | H1 | 2 | H2 | 3 | H3 |
| 0-10 | 28.1 | 29.7 | 27.9 | 30.4 | 24.4 | 27.2 |
| 10-30 | 25.2 | 17.6 | 21.1 | 25.9 | 22.8 | 20.5 |
| 30-50 | 14.8 | 11.5 | 8.7 | 16.6 | 11.2 | 10.9 |

Mae H1-H3 yn cynrychioli'r samplau pridd a gasglwyd ger y gwrych yn y caeau hynny.

## CANLYNIADAU PRIDD LABORDAI LANCROP

### Canllaw lliw

- High
- Normal
- Slightly Low
- Low
- Very Low

**Tabl 4: Canlyniadau Pridd Pentrefelin 2024**

| | Guideline | Field 1 | Field 2 | Field 3 | Field 4 | Field 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| pH | 6 | 6.5 | 6.6 | 6.2 | 7.3 | 7.7 |
| Organic Matter (DUMAS) | 3 | 3.6 | 2.8 | 2.9 | 5.4 | 4.6 |
| C.E.C (meq/100g) | 15 | 8.2 | 10.1 | 6.6 | 8.7 | 10 |
| Soil Respiration (mg/kg) | 70 | 143 | 134 | 113 | 137 | 166 |
| C:N Ratio | 10 | 9.9 | 10.1 | 10.4 | 10.7 | 12.2 |
| Orgainc Carbon Stock (t/ha) | 34 | 40.5 | 32.1 | 32.4 | 34 | 52.2 |
| Phosphorus (ppm) | 16 | 14 | 22.3 | 19.6 | 41 | 20 |
| Potassium (ppm) | 121 | 111 | 106 | 107 | 271 | 145 |
| Magnesium (ppm) | 51 | 43 | 40 | 39 | 68 | 51 |
| Calcium (ppm) | 2000 | 1512 | 1287 | 1097 | 1923 | 2310 |
| Sulphur (ppm) | 10 | 3 | 2 | 4 | 4 | 3 |
| Sodium (ppm) | 90 | 17 | 14 | 14 | 17 | 17 |
| Boron (ppm) | 0.5 | 1.18 | 1.05 | 0.94 | 1.32 | 1.5 |
| Copper (ppm) | 8 | 4.3 | 4.3 | 4 | 4.5 | 4.5 |
| Iron (ppm) | 50 | 980 | 1081 | 1273 | 940 | 869 |
| Manganese (ppm) | 55 | 54 | 69 | 38 | 163 | 134 |
| Molybdenum (ppm) | <0.5 | 0.043 | 0.043 | 0.03 | 0.03 | 0.02 |
| Zinc (ppm) | 7 | 4.4 | 6.1 | 5.2 | 7.2 | 4.3 |

## CANLYNIADAU GLASWELLT

**Tabl 5: Canlyniadau glaswellt ar fferm Pentrefelin Mehefin 2024**

| Field | Guideline | Field 1 | Field 2 | Field 3 | Field 4 | Field 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Calcium* (%) | 0.5 | 0.36 | 0.46 | 0.47 | 0.38 | 0.74 |
| Magnesium* (%) | 0.2 | 0.1 | 0.12 | 0.11 | 0.12 | 0.15 |
| Manganese* (ppm) | 70 | 76.9 | 98 | 74.7 | 174.1 | 50 |
| Boron* (ppm) | 6 | 3.8 | 4.4 | 5.3 | 3.3 | 9 |
| Copper* (ppm) | 11 | 4.6 | 4 | 5.2 | 4.8 | 7.1 |
| Molybdenum* (ppm) | <2 | 1.79 | 6.41 | 3.35 | 1.94 | 3.67 |
| Iron* (ppm) | 50 | 318 | 171 | 81 | 108 | 347 |
| Zinc* (ppm) | 40 | 20.9 | 18.5 | 16.9 | 19 | 23.1 |
| Sulphur* (%) | 0.2 | 0.13 | 0.12 | 0.24 | 0.17 | 0.24 |
| Phosphorus* (%) | 0.35 | 0.23 | 0.29 | 0.38 | 0.28 | 0.36 |
| Potassium* (%) | 1.5 | 1.94 | 2.12 | 2.57 | 2.31 | 3.02 |

## MICRO BIOLEG Y PRIDD

**Tabl 6. Canlyniadau bioleg y pridd**

| | Cae 1 | Cae 2 | Cae 3 | Cae 4 | Cae 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Biomas Microbaidd (mg/kg) | 3169 | 2985 | 2516 | 3044 | 3682 |
| Resbiradaeth y pridd (mg/kg) | 143 | 134 | 113 | 137 | 166 |
| Sgôr Asesiad Pridd | 67 | 66 | 55 | 72 | 75 |

**Canlyniadau**


Palu twll a chynnal asesiad gwerthuso gweledol o strwythur y pridd oedd y ffordd draddodiadol o nodi a sgorio iechyd y pridd o 1-5 yn seiliedig ar agregau, lliw, mandylledd a gwreiddiau, ond mae hyn yn gallu cymryd llawer o amser ac yn llafurus i'w wneud yn rheolaidd fel ffordd o fonitro iechyd y pridd.

Mae defnyddio'r dadansoddiad pridd estynedig drwy labordai Lancrop wedi cynnig dadansoddiad llawn o faetholion, elfennau hybrin, pH a deunydd organig y pridd yn ogystal â nodweddion biolegol resbiradaeth y pridd a biomas microbaidd. Mae'r Sgôr Asesiad Pridd

cyffredinol hefyd yn rhoi cymhariaeth syml rhwng caeau a gellir ei ddefnyddio dros amser wrth gynnal gwaith samplu pellach er mwyn monitro iechyd y pridd.

Mae'r priddoedd ar fferm Pentrefelin yn gyffredinol yn is mewn Deunydd Organig a CEC, o bosibl yn gysylltiedig â natur dywodlyd y pridd (Ffigur 2 a Thabl 7). Nid oes unrhyw gof bod Cae 4 wedi cael ei aredig, a dyma'r cae sy'n cynnwys y cyfanswm uchaf o ddeunydd organig, sef 5.4%, a gallai'r lefelau is a welwyd yng Nghaeau 2 a 3 fod yn gysylltiedig â thyfu cnydau india-corn yn barhaus.

**Ffigur 2. Labordai Lancrop - % y cynnwys tywod, silt a chlai yng nghae 2**




**Tabl 7. Dadansoddiad ffisegol o'r pridd yng Nghae 2**

| Dadansoddiad | Canlyniad % |
|---|---|
| Tywod | 68.33 |
| Silt | 26.79 |
| Clai | 4.88 |
| Math o bridd | SaLo |
| | Lôm Tywodlyd |

Cae 5 dan y cnwd maglys rhuddlas sy'n dangos y lefel uchaf o fiomas microbaidd a chyfradd resbiradaeth y pridd, yn ogystal â'r ail lefel uchaf o ddeunydd organig.

Mae crynodiadau sylffwr, sodiwm a chopr yn isel iawn yn y pridd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu o ran lefelau isel o gopr a sinc yn y glaswellt hefyd, sy'n ffactorau a fydd angen sylw ar ffurf ychwanegion i'r anifeiliaid i sicrhau'r cynhyrchiant gorau posibl.

**Casgliadau**

- Mae profion labordy Lancrop yn darparu ffordd gynhwysfawr a chyfleus i ffermwyr fesur a monitro iechyd eu priddoedd ac yn eu galluogi i gymharu rhwng caeau a dros amser

- Mae'r symudiad tuag at arferion pori adfywiol ar fferm Pentrefelin yn debygol o wella paramedrau iechyd y pridd, gan ddychwelyd mwy o dail da byw i'r tir a hybu datblygiad mwy o amrywiaeth a mwy o ficro organebau'r pridd